



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Bethel  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1AX**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2013

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Bethel yng nghanol pentref Bethel, tua thair milltir i'r dwyrain o dref Caernarfon. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, plwyf Llanddeiniolen a'r ardal wledig o gwmpas.

Mae 149 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys disgyblion dosbarth Meithrin. Mae niferoedd wedi bod yn gyson dros y 3 blynedd diwethaf. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae 93% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig yn yr ysgol.

Mae 6.25% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 15% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol sy'n is na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2002.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bethel yn 2012-2013 yw £2,986. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,674. Mae Ysgol Gynradd Bethel yn safle 88 allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Bethel yn dda oherwydd bod:

- ansawdd gwaith llafar y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn;
- darpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn y Gymraeg yn hynod o effeithiol ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod;
- safonau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn gyffredinol dda;
- yr ysgol yn gymuned glos, ofalgar sy'n creu ethos cynhwysol;
- safonau ymddygiad ar draws yr ysgol yn uchel; a
- bod yr ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau cyfoethog ac ysgogol sy'n diwallu anghenion y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon Ysgol Bethel yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir yn seiliedig ar les plant ac ar sicrhau safonau uchel;
- gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol sydd yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol;
- cydlynwyr pynciol, drwy gyfrwng y trefniadau monitro effeithiol, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r broses o wella ansawdd; a
- bod lles a chyflawniad disgyblion yn elwa o'r gwaith effeithiol gydag ystod o bartneriaid.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen Saesneg.

A2 Sicrhau bod yr adborth ar waith disgyblion yn rhoi arweiniad clir ar sut i wella eu gwaith.

A3 Cryfhau trefniadau monitro systemau'r ysgol er mwyn sicrhau cynnydd priodol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda, yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol ac yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau.

Mae bron pob un, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwranddo'n astud ar eu hathrawon ac mae llawer ohonynt yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu syniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae ymatebion y mwyafrif o ddisgyblion yn fwy estynedig. Mae bron bob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae ansawdd gwaith llafar y disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Defnyddiant eirfa Gymraeg a chystrawennau cadarn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrion a chyda mynegiant i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder gan ymateb yn ystyrion i'r testun. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol. Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn briodol ar draws ystod o bynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrion ac yn annibynnol. Mae gan y mwyafrif afael cadarn ar gystrawen Gymraeg ac yn gyffredinol yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu gan ddefnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau disgyblion ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru.

Llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 i gyrraedd y lefel ddisgwylidig (lefel 4+) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, sef y Dangosydd Pynciau Craidd. Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol. Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y

blynyddoedd diwethaf, serch hynny mae yn y 25% uchaf yn 2012 ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na'r teulu o ysgolion.

Yn gyffredinol, nid oes bwch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeiliant 6 mewn catblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefelau uwch yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol â chyflawniadau gweddill y disgyblion.

### **Lles: Da**

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais a chyfeillgar. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel ac maent yn barchus iawn o'i gilydd. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chyrhaeddiad y disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion blwyddyn 6 yn ymwneud â dyletswyddau Criw Clên a'r amseroedd egwyl mewn modd cyfrifol a gofalgwr iawn.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ymarfer corff ar gyfer cadw'n iach. Mae eu cyfranogiad rheolaidd yn y 'Clwb Dal i Fynd' a chlybiau chwaraeon yn atgyfnerthu hyn.

Mae safonau ymddygiad ar draws yr ysgol yn uchel. Yn y gwersi mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais ac yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau a osodwyd iddynt. Serch hynny, nid yw lleiafrif y disgyblion wedi datblygu eu gallu i wella eu gwaith eu hunain yn ddigon effeithiol.

Gwna'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Gwyrdd gyfraniadau pwysig i fywyd yr ysgol. Mae'r aelodau'n ymfalchïo yn eu rolau wrth sicrhau llais clir i'r disgyblion. Trwy ymrwymiad rheolaidd i weithgareddau yn y gymuned, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai ysgolion tebyg.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau cyfoethog ac ysgogol sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws ystod o bynciau. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i atgyfnerthu profiadau'r disgyblion.

Mae datblygiadau diweddar i wella ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2 wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi integreiddio'n llwyddiannus i bob agwedd o'r cwricwlwm, a thrwy hyn yn datblygu hunaniaeth y disgyblion mewn ffordd

gynhwysol sy'n meithrin parch at eu hardal a'u thraddodiadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol. Drwy amrywiaeth o brofiadau, a gweithgareddau o safon uchel, datblygir ymwybyddiaeth disgyblion o fyw mewn modd cynaliadwy yn effeithiol iawn. Mae cysylltiadau cadarn gydag ysgolion yn Ffrainc, Uganda a'r Ariannin, ynghyd â gwersi Ffrangeg, yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u lle yn y byd ac o amrywiol ddiwylliannau. Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad arian 'Ysgolion Rhyngwladol' gan y Cyngor Prydeinig. Mae gwaith elusennol yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o wahanol rannau o'r byd yn effeithiol.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod y gweithgareddau'n ysgogol ac yn hybu dysgu effeithiol. Mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn creu ethos gweithgar ac yn darparu cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae pob aelod o staff yn fodel ieithyddol da.

Ble mae'r addysgu ar ei orau, fe geir cyflwyniadau bywiog a chwestiynu treiddgar i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. Mae tasgau wedi eu gwahaniaethu'n briodol ar gyfer disgyblion o wahanol allu. Mae disgwyliadau'r athrawon o gyflawniad y disgyblion yn uchel.

Lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw asesu ar gyfer dysgu wedi datblygu'n llawn eto, ac nid yw'r tasgau chwaith wedi eu gwahaniaethu'n ddigonol i herio disgyblion o allu uwch.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi mae athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol i ddisgyblion. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Nid yw trefniadau ar gyfer gosod targedau wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn ac nid yw dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn sydd ei angen i wella eu gwaith wedi datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn asesu gwaith yn rheolaidd gan nodi cynnydd y disgyblion yn glir. Mae prosesau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon wedi sefydlu yn yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o asesiadau i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

Drwy adroddiadau a chyfarfodydd rheolaidd, mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth glir ar gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae datblygiad lles y disgyblion yn gryfder ac yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i hyrwyddo ymddygiad yn llwyddiannus. Mae'r system 'Cerdyn Cwrteisi' yn enghraifft dda o hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o arbenigedd allanol lle bo angen. Defnyddir data profion safonol ac asesiadau parhaus i adnabod anghenion y disgyblion. Trwy raglenni ymyrraeth fe ddarperir y gefnogaeth briodol yn llwyddiannus gan athrawon a chymorthyddion. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir er mwyn sicrhau cynnydd. Adolygir y cynlluniau ddwywaith y flwyddyn, gyda'r disgyblion yn rhan o'r broses honno.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar sy'n creu ethos cynhwysol. Mae yma awyrgylch gynnes ymhlith y staff a'r disgyblion sy'n seiliedig ar barch. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at safonau ymddygiad.

Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn hybu cyfle cyfartal a chydaddoldeb yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu digon o le ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal fewnol ac allanol i gynnig profiadau eang a gwerthfawr i'r disgyblion.

Mae cyflwr yr ysgol yn dda ac mae'n cael ei chadw'n lân ac yn raenus. Mae amgylchedd yr ysgol yn chwaethus ac yn ddeniadol iawn gyda gwaith y disgyblion yn cael lle haeddiannol ochr yn ochr â gwaith artistiaid enwog.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir yn seiliedig ar les plant ac ar sicrhau safonau uchel. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n effeithiol i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio fel rhan o dîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad yr holl staff i weithredu'r strategaeth iaith a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am y ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llawn. Mae'n dadansoddi data yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at osod cyfeiriad strategol yr ysgol drwy drafod blaenoriaethau'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae adroddiadau rheolaidd y pennaeth ynghyd ag ymweliadau cyson â'r ysgol, yn galluogi aelodau'r corff i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac i ddal yr ysgol i gyfrif am y safonau.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw helaeth i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ynghyd â darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ar draws yr ysgol. Mae llais y dysgwyr yn cael lle amlwg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.



### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'i pherfformiad ei hun, ei chryfderau ac elfennau ar gyfer datblygiad pellach. Sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae cydlynwyr pynciol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r broses trwy greu adroddiadau wedi eu seilio ar ymweliadau â dosbarthiadau, gwirio cynlluniau ac archwilio gwaith disgyblion. Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn y broses o wella ansawdd.

Mae'r drefn ar gyfer dadansoddi data asesiadau diwedd cyfnod a phroffion safonol blynyddol yn drylwyr ac mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i dargedu agweddau sydd angen gwella. Nid yw'r dadansoddiad o dueddiadau dros gyfnod yr un mor dreiddgar.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o'r hunanarfarnu'n effeithiol i osod blaenoriaethau heriol a phriodol ar gyfer gwella. Mae'r blaenoriaethu hyn yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae strategaethau addas ar gyfer cyflawni'r bwriadau, a defnydd priodol o feini prawf llwyddiant i fesur cynnydd ynghyd â therfynau amser penodol. Er hyn, nid yw'r trefniadau monitro bob amser yn ddigon effeithiol i sicrhau cynnydd priodol.

Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol, yn ogystal â'r cysylltiadau sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaed i ddatblygu safonau ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas gadarn a chydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni megis y clwb gweu a'r clwb garddio. Mae'r ysgol yn elwa o'r cysylltiadau hyn, ac yn darparu profiadau pellach i'r disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hyn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i ddarparu hyfforddiant ar y cyd. Mae partneriaeth gadarn gyda'r cylch meithrin sy'n rhannu'r un campws, yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu'n fuan yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae partneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a balchder disgyblion yn eu bro.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff addysgu a chymorthyddion sy'n cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau

cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o arbenigedd staff er mwyn cyfoethogi profiadau a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau addas ar waith lle ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon. Mae'r targedau yn seiliedig ar flaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion unigolion.

Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal safonau'r ysgol.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gael sy'n ymateb yn briodol i anghenion yr holl ddisgyblion. Gwneir defnydd o gae'r ysgol gan glwb pêl droed Bethel a gan Adran Urdd y pentref er mwyn ehangu profiadau'r disgyblion y tu allan i oriau ysgol.

Mae gwariant yr ysgol yn cael ei gynllunio'n ofalus yn ôl blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn uchel iawn ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf a 50% i 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 i gyrraedd y lefel ddisgwylidig (lefel4+) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (DPC). Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol. Mae hyn yn dilyn cyfnod o ostyngiad/dirywiad mewn cyflawniadau disgyblion 11 oed ymhob pwnc craidd dros y 3 blynedd flaenorol.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, er yn y 25% uchaf yn 2012 ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol a ffigyrau teulu ac wedi bod yn gyson uwch na'r teulu o ysgolion, yr awdurdod a Chymru dros gyfnod o amser.

Yn gyffredinol, nid oes bwllch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeilliant 6 mewn datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefelau uwch yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol â chyflawniadau gweddill y disgyblion.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 67 o ymatebion gan ddisgyblion. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae pob disgybl yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob disgybl yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae bron pob un yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, sydd ychydig yn uwch na chanrannau cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

#### Derbyniwyd 51 o ymatebion gan rieni

Mae ymatebion y rhieni yn gadarnhaol iawn. Mae pob rhiant yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae rhan fwyaf y rhieni yn cytuno bod yr addysgu'n dda a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae bron pob rhiant yn cytuno bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol tra mae rhan fwyaf y rhieni yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae rhan fwyaf y rhieni yn teimlo'n ddiogel ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Mae llawer yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol.

Mae rhan fwyaf y rhieni yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Anwen Griffith	Arolygydd Cofnodol
Goronwy Morris	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Robert Jenkins	Arolygydd Cymheiriaid
Nia Guillemin	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.